

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Marsh, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 20 Chwefror 2024

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	16
4.	Y camau nesaf .....	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Marsh, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 20 Chwefror 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 41 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 7 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Marsh yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, roedd y sylwadau ar y cyfan yn gadarnhaol a dywedodd pob un o'r cleifion a nododd eu barn fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gofyn am gyngor gan y Bwrdd Iechyd a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith
- Diweddarau'r weithdrefn gwyno a sicrhau y gall cleifion ei defnyddio'n hawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Safle dymunol, glân a oedd mewn cyflwr da
- Trefniadau da i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Addasiadau wedi cael eu gwneud i helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Marsh mewn cyflwr da ac yn cynnwys digon o gyfarpar i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau i gleifion. Roedd y deintyddfeydd yn fawr, yn lân ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offerynnau deintyddol yn cael eu dihalogi a'u sterileiddio. Rydym yn ystyried bod cael ystafell ar wahân i ddihalogi yn arfer da, ac roedd dwy ystafell ddynodedig yn y practis hwn.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd cofnodwyr data wedi'u gosod ar awtoclafau'r practis. Yn ogystal, nid oedd tystysgrifau ar gael i ddangos bod gwaith cynnal a chadw priodol wedi'i wneud ar beiriannau gwasgedd. Gwnaethom roi cyfarwyddyd i'r practis osod cofnodwyr data a darparu tystiolaeth o waith cynnal a chadw.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau'n gyson, gan gynnwys cofnodi cydsyniad ar lafar
- Diweddarau Aseiad Risg Iechyd a Diogelwch y practis
- Diweddarau polisiâu a gweithdrefnau yn ymwneud â diogelu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhagofalon diogelwch tân priodol
- Roedd trefniadau diogel ar waith mewn perthynas â defnyddio cyfarpar pelydr-X
- Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer rheoli heintiau a rheoli gwastraff.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd arweinyddiaeth dda ym Mhractis Deintyddol Marsh, ynghyd â llinellau atebolrwydd clir. Roedd y perchennog hefyd yn gweithredu fel y prif ddeintydd a'r rheolwr cofrestredig.

Roedd y tîm o staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd cofnodion y staff wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf, yn unol â'r gofynion rheoleiddiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefnu rhaglen o archwiliadau
- Rhoi system ar waith i sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd
- Rhoi system ar waith i reoli anghenion hyfforddi ac amserlenni ar eu cyfer.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Arweinyddiaeth glir ac roedd y staff i'w gweld yn cydweithio'n dda fel tîm
- Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer recriwtio staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Mae wedi bod yn ardderchog erioed ac rydym yn teithio 40 milltir bob ffordd i gael eu gwasanaethau ardderchog - pum seren.”*

*“Mae'r gofal a'r gwasanaeth yn eithriadol.”*

*“Rwy'n awtistig ac mae'r staff yn gwneud eu gorau glas i wneud yn siŵr eu bod yn esbonio beth maent yn ei wneud er mwyn fy atal i rhag mynd yn orbryderus.”*

*“Rwyf wedi bod yn glaf ers blynyddoedd lawer. Fyddwn i ddim am fynd i unrhyw le arall. Rydym yn teithio o Orllewin Cymru am fod y ddeintyddfa mor wych.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Roedd rhywfaint o wybodaeth am iechyd y geg ar gael yn ardal y dderbynfa, sef ar fwrdd yn dangos faint o siwgr sydd mewn diodydd meddal gwahanol.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion deg claf a nodwyd bod hylendid y geg a chyngor ar ddiety yn cael ei gofnodi'n gyson.

Dywedodd y cleifion a fynegodd eu barn yn holiaduron AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd y geg wrthynt mewn ffordd roeddent yn ei deall, bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb cwestiynau, ac wedi esbonio beth roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad.

Roedd arwydd 'Dim smygu na fepio' yn cael ei arddangos, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.



### **Gofal Urddasol a Pharchus**

Gwelsom fod drysau'r ardaloedd clinigol yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwnaethom nodi bod cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn ardal y dderbynfa i hyrwyddo preifatrwydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi ystyried preifatrwydd cleifion yn ystod sgysiau dros y ffôn ac roedd set llaw ddiwifr ar gael i fynd i mewn i'r deintyddfeydd os oedd angen cynnal sgwrs breifat. Yn yr un modd, byddai unrhyw gleifion sydd am gael sgwrs gyfrinachol yn cael mynd i ddeintyddfa sydd ar gael.

Gwelsom fod prisiau triniaethau ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG yn cael eu harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa.

Roedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ardal y dderbynfa. Mae'r egwyddorion yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Teimlai'r holl gleifion a fynegodd farn yn holiadur AGIC eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwnaethom adolygu sampl o ddeg cofnod cleifion a chadarnhau bod gwybodaeth a oedd yn cynnwys manylion y cleifion a'u hanes meddygol wedi'u cynnwys.

Dywedodd pob ymatebydd ond un a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth, ac o'r rheini a oedd yn teimlo ei fod yn gymwys, dywedodd pob ymatebydd ond un eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn monitro hyd apwyntiadau, ac os byddai oedi, y byddent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion a oedd yn aros ar lafar ac yn cynnig aildrefnu'r apwyntiad os oedd angen gwneud hynny.

Roedd oriau agor y ddeintyddfa wedi'u rhestru ar y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis, ond nid oeddent yn cael eu harddangos yn glir ar y safle. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad, drwy arddangos poster yn dangos yr oriau agor ar y ffenestr ger y fynedfa flaen.

Dyweddod y staff wrthym fod dau apwyntiad brys yn cael eu hamserlennu'n ddyddiol a bod cleifion yn cael eu brysennu dros y ffôn i flaenoriaethu'r rhai y mae angen y gofal mwyaf brys arnynt. Roedd manylion yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis ar sut i gael triniaeth mewn argyfwng.

Nid oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein, ond roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiad yn bersonol neu dros y ffôn.

Dyweddod pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac Iaith**

Nid oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith yn y practis. Roedd nifer cyfyngedig o arwyddion yn ardal y dderbynfa yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) a dywedodd y staff wrthym fod rhai deunyddiau ar gael yn y Gymraeg, ond nid oedd hyn yn cael ei hysbysebu'n glir i gleifion.

### **Dylai'r rheolwr cofrestredig geisio cyngor gan y bwrdd iechyd lleol a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.**

Dyweddod y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt dros y ffôn os na fyddai claf yn gallu cyfathrebu yn Saesneg.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod gan y practis bolisi Cyfle Cyfartal, ond nid oedd wedi cael ei ddiweddarau ers 2015. Cafodd hwn ei ddiweddarau yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y ddogfen a adolygwyd yn briodol.

Dyweddod y staff wrthym fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin ag urddas, gydag enwau a rhagenwau dewisol wedi'u nodi yn eu cofnodion.

Gwelsom fod rhywfaint o ddarpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd desg y dderbynfa'n cynnwys rhan is, a oedd yn golygu ei bod yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Roedd y seddi yn ardal y dderbynfa yn cynnwys cadeiriau â chefnau uchel a breichiau. Roedd y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod ac yn cynnwys bar cydio.

Roedd gan fynedfa flaen y practis ris a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi trefnu i gleifion yr oedd angen mynediad cadair olwyn arnynt ddefnyddio'r fynedfa gefn, a oedd yn fwy hygyrch gyda ramp ac yn arwain at y ddeintyddfa i lawr y grisiau.

Dyweddod y staff wrthym fod hyn wedi'i nodi yng nghofnodion cleifion ag anawsterau symudedd ac roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu iddynt yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Roedd yr ardaloedd a oedd yn wynebu'r cyhoedd yn lân, yn cael eu cynnal yn dda ac nid oedd peryglon amlwg.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch a gwelsom er bod polisi iechyd a diogelwch ar waith, ynghyd ag asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr, roedd y ddwy ddogfen yn hwyr yn cael eu hadolygu. Nid oedd polisi ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod Polisi Iechyd a Diogelwch ac Asesiad Risg y practis yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.**

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben.**

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau ar gyfer mislif. Roedd gan y staff fynediad i doiled ac ardal newid ar wahân yr oedd modd eu cloi, gyda lle i storio eiddo personol.

Roedd sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt yn cael eu storio'n briodol mewn cwpwrdd yr oedd modd ei gloi. Gwelsom fod y clo yn ddiffygiol. Fodd bynnag, cafodd hwn ei drwsio yn ystod yr arolygiad.

Roedd potel o gannydd yn cael ei storio yn nhoiled y cleifion ac o fewn cyrraedd y defnyddwyr. Gwnaethom gynghori y dylid ei symud a'i storio gyda deunyddiau COSHH eraill a gwnaed hyn yn ystod yr arolygiad.

Roedd nifer priodol o gadeiriau yn yr ardal aros, gydag arwyneb yr oedd modd ei sychu'n lân.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau a oedd yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod gan y practis drefniadau da ar waith. Roedd asesiad risg tân cyfredol ar waith, tystiolaeth bod cyfarpar atal tân yn cael ei gynnal a'i gadw yn flynyddol a thystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd. Roedd arwydd 'dim smygu na fepio' yn cael ei arddangos, ynghyd ag arwyddion a oedd yn dangos llwybrau dianc rhag tân yn glir.

Roedd 'strategaeth parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb' ar waith. Fodd bynnag, roedd angen ei hadolygu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y 'strategaeth parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb' yn cael ei diweddarau a'i hadolygu'n rheolaidd.**

Roedd Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr a phoster lechyd a Diogelwch yn y Gwaith wedi'u harddangos.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod trefniadau da ar waith ar y cyfan i ddihalogi a sterileiddio offer deintyddol. Roedd gan y practis ddwy ystafell benodedig ar gyfer dihalogi, gan fodloni argymhellion Memorandwm Technegol lechyd Cymru WHTM01-05.

Gwelsom fod gan y practis arweinydd rheoli heintiau dynodedig, bod cyfundrefnau glanhau a pholisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi proses rheoli heintiau effeithiol.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff, gan gynnwys gwastraff clinigol, a gwelsom eu bod yn gadarn.

Gwnaethom edrych ar gofnodion staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael brechlynnau yn erbyn Hepatitis B. Fodd bynnag, nid oedd modd darparu cofnodion ar gyfer un aelod o'r staff i ddangos ei fod wedi ymateb yn briodol i'r brechlyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gan bob aelod o'r staff dystiolaeth i ddangos ymateb priodol i'r brechlyn Hepatitis B.**

Roedd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC a fynegodd farn yn teimlo bod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Roedd gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau a gweithdrefnau diogel er mwyn defnyddio, storio, rhoi a gwaredu meddyginiaethau.

Roedd cyfarpar ar waith i reoli argyfyngau meddygol, gyda'r holl gyfarpar a meddyginiaethau yn gyfredol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant tri aelod o staff (allan o saith) a gwelsom fod pob un ohonynt wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf mewn dadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd dau aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gwnaethom nodi bod y cyfarpar brys yn cynnwys dau ddiffibriliwr allanol awtomataidd. Roedd un yn gweithio ond dywedodd y staff fod angen trwsio'r llall.

Gwnaethom gynghori y dylid symud y diffibriliwr allanol awtomataidd anweithredol ar unwaith a'i storio rywle arall, er mwyn osgoi dryswch a mwy o risg i gleifion mewn argyfwng. Ymdriniwyd â hyn a chafodd ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac ar gael i'r holl staff. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth gysylltu berthnasol. Gwnaethom nodi nad oedd cyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

### **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau diogelu eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi staff a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd arweinydd diogelu dynodedig wedi'i benodi.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Ar y cyfan, gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben a fwriadwyd.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â'r defnydd o gyfarpar pelydr-X. Gwelsom fod rhestr briodol o gyfarpar, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol yn cael eu harddangos. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi'r staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi mewn perthynas â gofalwyr a chysurwyr.

### **Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar ofalwyr a chysurwyr ar waith.**

Canfu ein hadolygiad o ddogfennau nad oedd dystiolaeth ar gael i ddangos bod gwaith cynnal a chadw a phrofi'r awtoclafau a'r cywasgydd yn cael ei gyflawni'n rheolaidd. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y cyfarpar wedi cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel. Yn ogystal, nid oedd cofnodwyr data wedi'u gosod ar y ddau awtoclaf. Dywedodd y staff wrthym fod y rhain wedi'u harchebu ond nad oeddent wedi cael eu darparu eto.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â diogelwch y cyfarpar drwy hysbysiad diffyg cydymffurfio. Mae hyn yn golygu y gwnaethom ysgrifennu at y practis ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau ar fyrder. Ceir manylion am yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn Atodiad B.

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Roedd trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Cawsom sicrwydd y byddai'r staff yn dod o hyd i ganllawiau a chyngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs), er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

### Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i reoli cofnodion y cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o 10 cofnod cleifion a gwelsom brosesau cofnodi gwybodaeth glinigol da ar y cyfan. Gwnaethom nodi bod angen gwella rhai meysydd. Gwnaethom gynghori y dylid cofnodi'r meysydd canlynol mewn ffordd fwy cyson: dewis iaith; asesiad risg yn seiliedig ar bydredd, perio, traul dannedd a chanser; sgrinio am ganser; a chofnodi cydsyniad ar lafar.

## Effeithlon

### Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu ac y darperir ar eu cyfer lle bo modd.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'r amgylchedd gwaith yn cael ei redeg yn dda iawn, caiff y cleifion eu trin yn dda iawn ac mae'r holl staff yn fodlon ar yr amodau gwaith.”*

*“Amgylchedd cyfeillgar iawn sy'n llawn cymorth ac mae'r cleifion wastad yn ddiolchgar am y gwasanaethau, ni waeth pa mor fach ydynt.”*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis, dan gyfarwyddyd y prif ddeintydd a oedd hefyd yn berchennog ac yn rheolwr cofrestredig. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal a chofnodion yn cael eu cadw, yn ogystal â chyfarfodydd a thrafodaethau ad hoc.

Roedd ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y rhain yn cael eu hadolygu na'u diweddarau'n rheolaidd ac nid oedd system gadarn ar waith i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau y caiff polisiau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd, yn unol â'r gofynion rheoliadol.**

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod gan y practis drefniadau priodol i gyflogi staff, gan gynnwys rhestr wirio sefydlu. Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff wedi cael eu cynnal.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a dywedwyd wrthym fod systemau ar waith i sicrhau bod cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei gynnal.



Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion staff a gwelsom gydymffurfiaeth dda â'r gofynion hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y staff wrthym fod system yn cael ei datblygu i helpu i fonitro a chynllunio hyfforddiant staff a gofynion eraill.

**Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro a chynllunio gofynion hyfforddi staff.**

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Roedd blwch awgrymiadau yn yr ardal aros. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn rhoi adborth ar lafar fel arfer. Nid oedd gan y practis ddull i ddangos y gweithredwyd ar adborth.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi gwybod i'r cleifion pan fydd camau wedi'u cymryd mewn ymateb i adborth, fel poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.**

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn cwynion, a ffeil i gofnodi'r cwynion a oedd yn dod i law. Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth cwynion a gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth yn anghyson neu ar goll, fel amserlenni ar gyfer ymateb, ffynonellau eiriolaeth (LLAIS), sut i uwchgyfeirio cwyn, a manylion y Bwrdd Iechyd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cwynion eu hadolygu a'u diweddarau.**

Roedd poster yn yr ardal aros yn cyfeirio cleifion i godi unrhyw gwynion i staff y dderbynfa. Gwnaethom gynghori bod angen gwybodaeth gliriach, gan ddangos pwy yw'r rheolwr cwynion a sut i gysylltu ag ef a bod y weithdrefn gwyno ar gael ar gais.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cleifion fynediad hawdd i'r weithdrefn cwynion a manylion cyswllt os oeddent yn dymuno gwneud cwyn ysgrifenedig.**

Dywedodd y staff wrthym iddynt gael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a gwelsom gopi o bolisi Dyletswydd Gonestrwydd y practis.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion. Roedd polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu cadw'n electronig ar y cyfan, ac roedd copïau papur yn cael eu cadw o gofnodion staff.

## **Dysgu, Gwella ac Ymchwil**

### **Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Roedd gan y practis bolisi mewn perthynas â gwella ansawdd. Gwelsom dystiolaeth o nifer cyfyngedig o archwiliadau clinigol, heb unrhyw dystiolaeth o archwiliadau ar roi'r gorau i smygu neu ragnodi gwrthfotigau. Gwnaethom gynghori y dylid rhoi rhaglen archwiliadau ar waith er mwyn monitro a gwella'r gwasanaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff system gadarn ei rhoi ar waith i gynnal archwiliadau perthnasol, i fonitro a gwella'r gwasanaeth.

## **Dull Systemau Cyfan**

### **Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Dywedodd y staff wrthym fod prosesau rhyngweithio â phartneriaid y system yn digwydd dros y ffôn neu dros e-bost fel arfer, a bod atgyfeiriadau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio system ar-lein.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd oriau agor y ddeintyddfa wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r safle.	Mae'r wybodaeth hon o gymorth i gleifion gael gafael ar ofal.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd poster yn dangos yr oriau agor ei arddangos yn y ffenestr wrth y fynedfa flaen.
Roedd gan y practis bolisi Cyfle Cyfartal, ond nid oedd hwn wedi cael ei ddiweddarau ers 2015.	Dylai polisiâu gynnwys gwybodaeth gyfredol i sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd y ddogfen ei hadolygu a'i diweddarau.
Roedd sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt yn cael eu storio mewn cwpwrdd yr oedd	Gallai'r cleifion gael gafael ar ddeunyddiau peryglus o bosibl.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd y clo ei drwsio.

modd ei gloi ond gwelsom fod y clo yn ddiffygiol.			
Gwelsom fod potel o gannydd yn nhoiled y cleifion ac o fewn cyrraedd y defnyddwyr. Gwnaethom gynghori y dylid ei symud.	Gallai'r cleifion gael gafael ar ddeunyddiau peryglus o bosibl.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Symudwyd y cannydd a chafodd ei storio yn y cwpwrdd storio COSHH wedi'i gloi.
Roedd y cyfarpar brys yn cynnwys dau ddiffibriliwr allanol awtomataidd a oedd wedi'u storio gyda'r cyfarpar brys. Roedd un yn gweithio ond dywedodd y staff fod angen trwsio'r llall.	Gallai defnyddio'r diffibriliwr allanol awtomataidd anghywir mewn argyfwng beri risg i ddiogelwch y claf.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Symudwyd y diffibriliwr allanol awtomataidd anweithredol a'i storio rywle arall.

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Marsh

Dyddiad yr arolygiad: 20 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth ar gyfer un o'r awtoclafau i ddangos bod gwiriadau cynnal a chadw priodol wedi cael eu cynnal arno.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw priodol wedi'u cynnal ar bob un o'r awtoclafau a chyflwyno tystiolaeth i AGIC fod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(a)	Darparwyd tystysgrif i AGIC	Steven Marsh	Wedi'i gwblhau
Cynhaliwyd adolygiad o'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer sterileiddio a dihalogi yn ystod arolygiad AGIC. Canfuwyd bod gwaith	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodwyr data priodol wedi'u gosod ar awtoclafau a chyflwyno tystiolaeth i AGIC	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(a)	Mae'r cyfarpar eisoes wedi'i archebu. Darparwyd manylion yr archeb i AGIC.	Steven Marsh	Cyfarpar wedi'i archebu - yn aros am gadarnhad o ddyddiad

<p>cofnodi perfformiad awtoclafau â llaw yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, dylid gosod cofnodwyr data i ddilysu a chofnodi bod yr awtoclafau yn cyflawni tymhereddau a gwasgedd priodol.</p> <p>Dywedodd y staff fod trefniadau wedi'u gwneud i osod cofnodwyr data.</p>	<p>bod y cam gweithredu hwn yn cael ei gwblhau.</p>		<p>Fel mesur dros dro, rydym wedi newid ein gweithdrefn sterileiddio i gynnwys dau gylch wedi'u hamseru y peth cyntaf yn y bore i sicrhau bod yr awtoclafau yn cyrraedd y tymheredd a ddymunir am dri munud. Mae'r prawf hwn wedi'i gofnodi mewn cofnodlyfr.</p>		<p>darparu a gosod.</p>
<p>Cynhaliodd AGIC adolygiad o'r cofnodion cynnal a chadw cyfarpar yn ystod yr arolygiad. Roedd tystiolaeth bod profion gwasgedd wedi'u cwblhau ar yr awtoclafau a'r cywasgydd, ond roedd y rhain wedi dirwyn i ben ym mis Rhagfyr 2023.</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod profion priodol yn cael eu cynnal ar beiriannau gwasgedd a rhoi tystiolaeth i AGIC bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(a)</p>	<p>Darparwyd tystysgrif i AGIC</p>	<p>Steven Marsh</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): STEVEN MARSH

Teitl swydd: PERCHENNOG A RHEOLWR COFRESTREDIG

Dyddiad: 27 Chwefror 2024



# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Marsh

Dyddiad yr arolygiad: 20 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni chafodd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ei gynnig yn y practis.	Dylai'r rheolwr cofrestredig geisio cyngor gan y bwrdd iechyd lleol a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	Rydym wedi cysylltu â'r BILL ac wedi cael ein cyfeirio tuag at becyn gwybodaeth 'Mwy na Geiriau'. Rydym wedi dechrau gwneud newidiadau i'n gweithdrefnau - rydym yn ceisio gwneud ein cyfarchion ar y ffôn yn y Gymraeg a'r Saesneg.  Mae 'Llyfr Piced i Fyfyrwyr' ar gael i weld ymadroddion syml. Rydym yn ymdrechu i	Steven Marsh	Parhaus

			roi'r 'cynnig rhagweithiol' ar waith ble bynnag y gallwn ni.		
<b>Roedd polisi lechyd a Diogelwch ar waith ynghyd ag asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr. Fodd bynnag, roedd y ddwy ddogfen yn hwyr yn cael eu hadolygu.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod Polisi lechyd a Diogelwch ac Aseiad Risg y practis yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(1)(k)	Mae'r polisi lechyd a Diogelwch wedi'i adolygu a'i lofnodi; cafodd yr asesiad risg iechyd a diogelwch newydd ei ddiweddarau a'i ychwanegu at y ffeil.	M. Nitoris	Wedi'i gwblhau
<b>Nid oedd polisi ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(1)(c)	Mae'r polisi ar gyfer sicrhau bod y safle a ddefnyddir ar gyfer y practis deintyddol preifat yn addas at y diben ar waith a bydd yn cael ei adolygu yn flynyddol. Cynhaliwyd asesiad risg a chafodd ei ychwanegu at y ffeil.	M.Nitoris	Yn parhau a bydd yn cael ei gwblhau cyn pen 1 mis.
<b>Roedd 'strategaeth parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb' ar</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y 'strategaeth parhad busnes ac adfer ar ôl	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat	Adolygwyd y strategaeth parhad busnes ac roedd yn	M. Nitoris	Wedi'i gwblhau

<p>waith. Fodd bynnag, roedd angen ei hadolygu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.</p>	<p>trychineb' yn cael ei diweddarau a'i hadolygu'n rheolaidd.</p>	<p>(Cymru) 2017, Rheoliad 8(1)(o)</p>	<p>cyd-fynd â chyngor Cymdeithas Ddeintyddol Prydain mewn perthynas â'r wybodaeth a'r gofynion diweddaraf.</p>		
<p>Nid oedd modd darparu cofnodion ar gyfer un aelod o'r staff i ddangos ei fod wedi ymateb yn briodol i'w frechlyn Hepatitis B.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gan bob aelod o'r staff dystiolaeth i ddangos ymateb priodol i'r brechlyn Hepatitis B.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(5)</p>	<p>Cysylltwyd â'r adran Iechyd Galwedigaethol dros y ffôn ar 20.02.2024 ac eto ar 19.03.24 - Mae gennym gofnod cywir o gofnod imiwneiddio Molly sy'n dangos prawf gwaed gwrthgyrff ar 8/2/23 gyda'r canlyniad 11-99</p>	<p>Molly Lewis</p>	<p>Parhaus - 1 mis i'w gwblhau</p>
<p>Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ar waith ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth gysylltu</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau, gan gynnwys cyfeiriad at weithdrefnau cenedlaethol Cymru gyfan, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14</p>	<p>Dylid diweddarau'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Ychwanegwyd Gweithdrefnau Cenedlaethol Cymru</p>	<p>M.Nitorisor</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>berthnasol. Yn ogystal, nid oedd cyfeiriad at weithdrefnau cenedlaethol Cymru Gyfan.</p>			<p>Gyfan at ffeil y polisi er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.</p>		
<p>Nid oedd gan y practis bolisi mewn perthynas â gofalwyr a chysurwyr, mewn perthynas â chysylltiadau pelydr-X.</p>	<p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar ofalwyr a chysurwyr ar waith.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1) (b)</p>	<p>Cysylltwyd â Chymdeithas Ddeintyddol Breifat a dilynwyd eu cyngor. Cafwyd canllawiau i greu ein polisi ein hunain.</p> <p>Mae'r Ffeil Diogelu Rhag Ymbelydredd (Adran 4 - Gweithdrefnau Gweithredol) hefyd yn cynnwys manylion ar ofalwyr a chysurwyr.</p>	<p>M.Nitisor</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Roedd angen gwella rhai agweddau ar gofnodion y cleifion a chofnodi gwybodaeth yn fwy cyson.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y meysydd canlynol eu cofnodi'n gyson: dewis iaith; asesiad risg yn seiliedig ar bydredd, perio, traul dannedd a chanser;</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)</p>	<p>Rydym wedi ystyried y cyngor ar gofnodion cleifion ac wedi cymryd y camau canlynol.</p>	<p>Steven Marsh</p>	<p>wedi'i gwblhau</p>

	sgrinio am ganser; a chofnodi cydsyniad ar lafar.		Mae'r asesiad risg ar gyfer pydredd, perio, traul dannedd a chanser yn cael ei gofnodi mewn nodiadau, a chaiff profion sgrinio canser a cydsyniad llafar eu cofnodi.		
<b>Roedd ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y rhain yn cael eu hadolygu na'u diweddarau'n rheolaidd ac nid oedd system gadarn ar waith i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau y caiff polisiau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd, yn unol â'r gofynion rheoliadol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(6)	Bydd y system ar gyfer adolygu gweithrediad polisiau a rhoi rheoliadau ar waith yn cael ei gwella. Bydd gwiriadau'n cael eu cyflawni mewn ysbeidiau o ddim mwy na 3 blynedd.  Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o bolisiau gan staff ym mis Hydref/Tachwedd 2023 ac roedd yn cynnwys y polisiau canlynol: Cyfrinachedd,	M.Nitorisor	Wedi'i gwblhau

			Cydsynio, Dulliau Rheoli COSHH, cyfarpar sgrin arddangos, lechyd a Diogelwch, Diogelu Rhag Ymbelydredd, Recriwtio a Chyflogaeth.		
<b>Dyweddod y staff wrthym fod system yn cael ei datblygu i helpu i fonitro a chynllunio hyfforddiant staff a gofynion eraill.</b>	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro a chynlluno gofynion hyfforddi staff.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(1)	Bydd system yn cael ei pherffeithio er mwyn monitro a chynllunio cynnydd DPP yr holl staff.	M.Nitisor	Parhaus - 1 mis.
<b>Nid oedd gan y practis ddull i ddangos y gweithredwyd ar adborth.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi gwybod i'r cleifion pan fydd camau wedi'u cymryd mewn ymateb i adborth, fel poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)(c)	Rhodddwyd poster adborth i fyny yn gofyn am unrhyw adborth ni waeth pa mor fach, gydag adran yr oedd modd ei thynnu i ffwrdd lle rydym wedi cofnodi unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i adborth, fel gosod ramp yn ddiweddar.	Steven Marsh	Wedi'i gwblhau

<p><b>Roedd rhywfaint o'r wybodaeth yn anghyson neu ar goll o'r ddogfennaeth cwynion, fel amserlenni ar gyfer ymateb, ffynonellau eiriolaeth (LLAIS), sut i uwchgyfeirio cwyn, a manylion y Bwrdd lechyd.</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cwynion eu hadolygu a'u diweddarau.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(1)</p>	<p>Diweddarwyd y polisi cwynion ac ychwanegwyd yr holl wybodaeth sydd ar goll. Darparwyd manylion clir i staff y dderbynfa.</p>	<p>M.Nitorisor</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p><b>Mae angen gwybodaeth gliriach, gan ddangos pwy yw'r rheolwr cwynion a sut i gysylltu ag ef a bod y weithdrefn gwyno ar gael ar gais.</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cleifion fynediad hawdd i'r weithdrefn cwynion a manylion cyswllt os oeddent yn dymuno gwneud cwyn ysgrifenedig.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(3)</p>	<p>Darparwyd manylion clir ar y weithdrefn cwynion i staff y dderbynfa. Mae'r holl staff yn ymwybodol o ble i gael gafael ar y wybodaeth, rhag ofn y bydd cleifion yn gofyn yn uniongyrchol iddynt.</p>	<p>M.Nitorisor</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p><b>Gwelsom dystiolaeth o nifer cyfyngedig o archwiliadau clinigol</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff system gadarn ei rhoi ar waith i gynnal archwiliadau perthnasol, i</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16 (1)</p>	<p>Bydd ffactor risg canser y geg, yr archwiliad Rhagnodi Gwrthfotigau a'r archwiliad Rheoli heintiau yn cael eu hychwanegu at yr</p>	<p>Steven Marsh</p>	<p>Parhaus - un wythnos.</p>

fonitro a gwella'r  
gwasanaeth.

archwiliadau  
presennol. Bydd  
adolygiadau'n cael eu  
hamserlennu unwaith y  
flwyddyn.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): STEVEN MARSH**

**Teitl swydd: PERCHENNOG A RHEOLWR COFRESTREDIG**

**Dyddiad: 26 Mawrth 2024**